Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arfarnu graddau ac effaith ailfodelu ar ddysgu a'r gweithlu ysgolion

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

EBRILL 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cefndir 2

Prif ganfyddiadau 3

Argymhellion 6

Graddau ailfodelu o ran darpariaeth statudol 7

Manteision ar gyfer staff ysgolion 10

Materion cydbwysedd gwaith-bywyd 12

Manteision ar gyfer disgyblion 14

Ymglymiad llywodraethwyr 16

Adnoddau a chymorth ar gyfer y cytundeb baich gwaith 17

Safbwynt cyffredinol ysgolion 19

Atodiad 1: Y cytundeb gweithlu cenedlaethol: cynllun saith pwynt ar gyfer creu amser ar gyfer athrawon a phenaethiaid

Atodiad 2: Niferoedd y staff cymorth sy'n cael eu cyflogi mewn ysgolion a gynhelir 2004-2008, ym mis Ionawr bob blwyddyn

Geirfa/cyfeiriadau

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

1 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er mwyn ymateb i'r cylch gwaith Gweinidogol blynyddol i Estyn ar gyfer 2008-2009.

2 Ym mis Ionawr 2003, cyhoeddwyd 'Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: cytundeb cenedlaethol'[1] gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth (DfES). Roedd y cytundeb yn cydnabod na fyddai rhagor o gynnydd ar godi safonau ar gyfer disgyblion yn bosibl oni bai bod pob athro gan gynnwys penaethiaid:

- ddim yn cyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol yn rheolaidd;
- yn cael cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd;
- yn wynebu llai o faich o ran cyflenwi dros gydweithwyr sy'n absennol;
- yn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) gwarantedig yn y diwrnod ysgol; ac
- yn cael sicrwydd dyraniad amser rhesymol i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain a rheoli.

3 Roedd y cytundeb hefyd yn nodi:

- y dylai penaethiaid gael amser dynodedig sy'n cydnabod eu cyfrifoldebau sylweddol; ac
- y dylid diwygio rolau staff cymorth er mwyn cefnogi athrawon a disgyblion yn well.

4 O ganlyniad, cyflwynwyd cytundeb cenedlaethol ar gyfer athrawon a phenaethiaid yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn amlinellu graddau ac effaith ailfodelu'r gweithlu ar staff ysgol a dysgwyr o'i gyfnod cyflwyno hyd at hydref 2008.

[1] Mae Atodiad 1 yn amlinellu darpariaethau'r cytundeb gweithlu cenedlaethol.

Cefndir

5 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar bedwar adroddiad blaenorol gan Estyn ar themâu cysylltiedig:

a Arfer dda mewn cymorth para-broffesiynol a chymorth arall ar gyfer athrawon – Tachwedd 2003;

b Baich gwaith athrawon – Medi 2004;

c Codi safonau a mynd i'r afael â baich gwaith mewn ysgolion yng Nghymru – Medi 2005; ac

ch Effaith ailfodelu'r gweithlu ar ddysgu disgyblion a chodi safonau – Ionawr 2007

6 Mae manylion yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o:

- raddau ailfodelu o ran darpariaeth statudol, er enghraifft, elfennau strwythurol fel amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) (esbonnir yn yr eirfa), cyfyngiadau ar staff llanw, amser arweinyddiaeth, amser dynodedig i benaethiaid a throsglwyddo tasgau o athrawon i staff cymorth;
- manteision i'r gweithlu ysgolion gan gynnwys yr effaith ar gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd athrawon, uwch staff a phenaethiaid;
- materion gwaith-bywyd a strategaethau y mae ysgolion yn eu defnyddio i greu cydbwysedd priodol;
- y rôl y mae llywodraethwyr wedi ymgymryd â hi yn y broses newid; a
- manteision ar gyfer dysgu disgyblion gan gynnwys effaith ar bresenoldeb, ymddygiad, darpariaeth y cwricwlwm a safonau.

7 Mae'r adroddiad yn defnyddio:

- gwybodaeth o adroddiadau ar yr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a arolygwyd yn ystod y cyfnod Medi 2007 – Gorffennaf 2008;
- trafodaethau gyda phenaethiaid, staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn ystod ymweliadau gan Arolygwyr Ei Mawrhydi â 12 ysgol;
- ymateb holiadur manwl o ddetholiad o 40 ysgol sy'n cynrychioli trawstoriad o fathau a meintiau ysgolion ledled Cymru;
- ymateb holiadur manwl gan 10 cadeirydd llywodraethwyr o ran ymglymiad llywodraethwyr yn y broses ailfodelu ysgolion; a'r
- ymatebion o arolygon ysgolion Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd mewn 20 awdurdod lleol.

Prif ganfyddiadau

8 Mae'r cytundeb baich gwaith yn cael effaith gadarnhaol iawn mewn ysgolion. Mae hanner yr ysgolion wedi newid eu trefniadau cychwynnol wrth iddynt ddatblygu ffyrdd gwell o fodloni gofynion y cytundeb. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn awr yn dechrau arfarnu'r effaith y mae'r trefniadau yn ei chael ar ddarpariaeth y cwricwlwm a chodi safonau.

9 Mae'r ailfodelu yn cynnwys elfennau strwythurol fel amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), cyfyngiadau ar yr amser sy'n cael ei dreulio yn cyflenwi dros athrawon sy'n absennol, amser arweinyddiaeth, dyrannu amser dynodedig ar gyfer penaethiaid a throsglwyddo tasgau i gefnogi staff. Mae agweddau cadarnhaol yng ngraddau'r ailfodelu yn cynnwys y canlyniadau a ddisgrifir isod.

a Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt wedi cael gwared ar y gofyniad i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlerigol yn rheolaidd. Fodd bynnag, dywed tuag un o bob 10 ysgol gynradd nad ydynt, hyd yn hyn, wedi rhoi'r agwedd hon ar y cytundeb ar waith yn llawn.

b Mae bron pob un o'r ysgolion a samplwyd wedi lleihau'n llawn y baich o ddarparu staff llanw ar gyfer cydweithwyr sy'n absennol i lefelau gofynnol.

c Mae pob un o'r athrawon yn ysgolion yr arolwg yn cael o leiaf 10% o amser CPA, ac o ganlyniad, mae mwy o amser ar gael iddynt ymgymryd â gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu.

ch Dywed pob un o'r ysgolion uwchradd yn y sampl eu bod wedi cael gwared ar y gofyniad i athrawon oruchwylio arholiadau.

10 Mae ysgolion yn ei chael yn fwy anodd gweithredu amodau'r cytundeb fel y maent yn berthnasol i amser arweinyddiaeth ac amser dynodedig ar gyfer penaethiaid. Er bod ysgolion yn gweithio tuag at weithredu dyraniadau amser rhesymol ar gyfer uwch staff i gyflawni eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth, mae dros draean yn dweud ar hyn o bryd nad ydynt wedi gallu gwneud hyn yn llawn. Mae amser dynodedig ar gyfer penaethiaid yn parhau i fod yn agwedd ar y cytundeb baich gwaith sydd wedi bod fwyaf anodd i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Dim ond mewn tua thraean o ysgolion y mae wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn, ac nid yw penaethiaid yn cael unrhyw amser dynodedig mewn tua chwarter o ysgolion cynradd. At ei gilydd, mewn ysgolion cynradd, mae'r sefyllfa'n waeth nag ydyw mewn ysgolion uwchradd, yn aml oherwydd bod y pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb am ddosbarth.

11 Yn adroddiad diwethaf Estyn ar ailfodelu ym mis Ionawr 2007, fe wnaethom ddatgan bod cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys y cyfyngiadau ar staff llanw, cael gwared ar y gofyniad i athrawon oruchwylio arholiadau a chyflwyno amser CPA gwarantedig, gyda'i gilydd, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr holl athrawon. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ac rydym wedi canfod bod pob athro, beth bynnag yw maint yr ysgol neu'r sector y maent yn gweithio ynddo, yn sôn am fanteision i'w rolau o ganlyniad i'r newidiadau sy'n gysylltiedig ag ailfodelu'r gweithlu a lleihau baich gwaith.

12 Nid yw'r darlun cadarnhaol hwn yn cael ei adlewyrchu ar gyfer uwch staff a phenaethiaid. Rydym wedi sôn am y baich gwaith ar gyfer uwch athrawon a phenaethiaid mewn adroddiadau blaenorol lle nodwyd, mewn nifer fawr o ysgolion, bod y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol yn cynrychioli un o'r mentrau mwyaf y bu'n rhaid i'r staff hyn eu rheoli. Mae'n cymryd cryn dipyn o amser rheoli i uwch athrawon a phenaethiaid drefnu'r newidiadau hyn yn effeithlon ac yn effeithiol.

13 Mae rheoli'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol yn ychwanegu'n sylweddol at faich gwaith uwch staff a phenaethiaid. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae mwy o uwch staff a phenaethiaid yn sôn am fanteision cadarnhaol sy'n deillio o ailfodelu'r gweithlu a lleihau baich gwaith. Disgrifir rhai o'r manteision cadarnhaol isod.

14 Athrawon sy'n cyflwyno gwaith penodol (esbonnir yn yr eirfa) yn ystod amser CPA athrawon (esbonnir yn yr eirfa) yn y rhan fwyaf o ysgolion. Fel arfer, caiff y rhain eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol. Ymddengys bod rheolwyr ysgolion yn benderfynol o ddefnyddio athrawon i ddarparu gwaith penodol er bod llawer yn ychwanegu at gostau'r athrawon hyn o'u cyllidebau prif ffrwd yn hytrach na'u bod yn defnyddio staff cymorth llai drud. Mae cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) yn cyflwyno gwaith penodol mewn lleiafrif o ysgolion yn unig tra bo ystod o oedolion eraill yn cael eu cyflogi mewn rhai ysgolion, gan gynnwys athrawon llanw, nyrsys meithrin, cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr llanw a hyfforddwyr chwaraeon.

15 Yn ein hadroddiad diwethaf, canfuwyd bod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion yn ystod amser CPA, mewn nifer fach o ysgolion, wedi cael ei gyfoethogi trwy gynnwys ystod ehangach o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau drama, dawns a chwaraeon. Roedd y gweithgareddau hyn yn aml yn cael eu harwain gan diwtoriaid neu wirfoddolwyr arbenigol.

16 Dengys ein tystiolaeth ddiweddar bod gweithgareddau cwricwlwm rheolaidd, mewn ychydig dros hanner o'r ysgolion, yn cael eu gwneud gyda disgyblion yn ystod amser CPA. Fodd bynnag, yn yr hanner arall o ysgolion, gwneir defnydd mwy creadigol o'r amser i ganolbwyntio ar feysydd o'r cwricwlwm lle mae angen codi safonau. Yn yr achosion gorau mewn ysgolion cynradd, mae'r staff sy'n cael eu defnyddio yn ystod amser CPA yn addysgu pynciau penodol i'r disgyblion, er enghraifft, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), cerddoriaeth neu addysg gorfforol. Fel hyn, addysgir y pwnc i'r disgyblion gan yr un arbenigwr bob wythnos. Mae'r addysgu arbenigol hwn yn helpu codi safonau yn y pynciau hyn.

17 Mae ein tystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod safonau wedi gwella mewn pynciau cwricwlwm penodol mewn ychydig dros ddwy o bob tair o'r ysgolion sampl. Mae a wnelo'r gwelliant hwn yn bennaf ag addysgu arbenigol gwell yn ystod amser CPA, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, yn hytrach na'r effaith ar athrawon dosbarth eu hunain o ran y ffaith eu bod yn cael eu rhyddhau i wneud mwy o gynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn codi cwestiynau am werth am arian y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wrth godi safonau yn fwy cyffredinol.

18 Caiff dyletswyddau a chyfrifoldebau rheolwyr ysgol o ran y cytundeb cenedlaethol eu monitro mewn nifer o ffyrdd. Mae llawer o reolwyr yn monitro cynllunio, paratoi ac asesu yn rheolaidd ar y cyfan. Hefyd, mae Estyn yn cynnal tua 300 o arolygiadau mewn ysgolion prif ffrwd bob blwyddyn. Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr adrodd ar ailfodelu'r gweithlu.

19 Mae llywodraethwyr wedi ymwneud yn llawn â'r newidiadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cytundeb cenedlaethol, gan gynnwys ystyried cydbwysedd gwaith-bywyd y pennaeth, mewn bron i ddwy o bob tair o'r ysgolion. Yn yr ysgolion eraill, mae llywodraethwyr wedi cael gwybod am y newidiadau hyn ac wedi'u cymeradwyo.

20 Mae pryderon mewn ysgolion ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ailfodelu'r gweithlu. Mewn rhai achosion, nid oes gan ysgolion ddigon o adnoddau i roi elfennau statudol y cytundeb cenedlaethol ar waith yn llawn. Mae hyn yn arbennig o wir ynglŷn ag amser arweinyddiaeth, amser dynodedig ar gyfer penaethiaid a goruchwylio arholiadau, ac yn ein sampl ni, dim ond tua chwech o bob 10 ysgol sy'n dweud bod ganddynt ddigon o adnoddau.

21 Mae mwy na hanner yr ysgolion mewn 10 awdurdod lleol yn teimlo nad ydynt yn gyffredinol yn cael digon o arweiniad a chymorth gan yr awdurdod i roi elfennau o'r cytundeb cenedlaethol ar waith yn effeithiol. Er enghraifft, mae angen i benaethiaid sydd ag ymrwymiad addysgu mewn ysgolion bach, yn benodol, gael cyngor ar y ffordd orau o weithredu'r gofyniad i ddarparu amser dynodedig ar gyfer penaethiaid. Mewn saith o'r awdurdodau lleol hyn, dywedodd mwy na 10% o'r ysgolion fod y cymorth yn wael neu'n wael iawn. Mewn un awdurdod lleol, dywed pedwar o bob 10 ysgol fod lefel y cymorth ar gyfer gweithredu'r cytundeb baich gwaith yn wael neu'n wael iawn.

22 Mae'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi bod yn bellgyrhaeddol ym mhob ysgol. Mae manteision y newidiadau ar gyfer athrawon yn cynrychioli gwerth da am arian. Fodd bynnag, mae gwerth am arian y newidiadau o ran gwelliannau yn safonau disgyblion yn llawer mwy cyfyngedig.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 adolygu dosbarthiad y cyllid ar gyfer elfennau statudol y cytundeb cenedlaethol i sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn gallu gweithredu'r newidiadau yn llawn; a

A2 pharhau i fonitro, trwy gomisiynu ymchwil pellach ar weithredu'r cytundeb cenedlaethol, a'i effaith ar ddisgyblion.

Dylai awdurdodau lleol:

A3 adolygu ansawdd yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ysgolion sy'n ymwneud â gweithredu'r cytundeb cenedlaethol yn effeithiol.

Dylai ysgolion:

A4 ganolbwyntio ar y modd y gall athrawon wneud mwy o ddefnydd o'r amser sy'n cael ei ryddhau gan ailfodelu i godi safonau cyflawniad disgyblion;

A5 gweithredu holl elfennau statudol y cytundeb cenedlaethol yn llawn;

A6 sicrhau bod llywodraethwyr yn adolygu baich gwaith y pennaeth er mwyn cefnogi cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd; a

A7 pharhau i arfarnu effaith y newidiadau ar safonau cyflawniad disgyblion.

Graddau ailfodelu o ran darpariaeth statudol

23 Mae ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithredu pob agwedd ar y cytundeb cenedlaethol. Fodd bynnag, mae ysgolion yn ei chael yn llawer haws gweithredu rhai agweddau nag eraill.

24 Mae'r arfer o drosglwyddo tasgau o athrawon i staff cymorth yn dod yn ei blaen yn dda. Mae niferoedd y staff cymorth mewn ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol. Mae llawer o swyddi sydd wedi cael eu gwneud gan athrawon yn draddodiadol yn cael yn cael eu gwneud yn awr gan staff cymorth. Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt wedi bod yn llwyddiannus wrth roi'r agwedd hon ar waith yn llawn ac nid yw athrawon yn yr ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn unrhyw dasgau gweinyddol arferol mwyach. Fodd bynnag, mae angen i un o bob 10 ysgol gynradd wneud mwy i drosglwyddo tasgau gweinyddol oddi wrth athrawon i staff cymorth. Yn yr ysgolion cynradd hyn, mae athrawon yn parhau i arddangos gwaith disgyblion ac yn ymgymryd â thasgau gweinyddol eraill fel casglu arian ar gyfer ymweliadau ysgol.

25 Dylid gosod amser CPA gwarantedig ar yr hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 10% o amserlen addysgu arferol athro. Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus ym mhob ysgol oherwydd bod penaethiaid wedi canolbwyntio ar sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn golygu bod pob athro yn cael mwy o amser ar gyfer gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu a bod yr athrawon eu hunain yn pennu'r blaenoriaethau penodol ar gyfer pob bloc o amser CPA a neilltuir.

26 Mae'r ffordd y caiff amser CPA ei drefnu yn amrywio rhwng ysgolion. Nid oes unrhyw ysgolion yn neilltuo amser CPA am gyfnodau llai na 30 munud. Mae bron pob ysgol uwchradd yn trefnu amser CPA mewn cyfnodau 60 munud. Mewn tri chwarter o ysgolion cynradd, trefnir amser CPA mewn cyfnodau hanner diwrnod bob wythnos ar gyfer pob athro, gyda bron yr holl ysgolion cynradd sy'n weddill yn rhyddhau athrawon ar gyfer CPA mewn cyfnodau o ddiwrnod bob pythefnos.

27 Mewn ysgolion cynradd mawr, mae penaethiaid yn trefnu i staff yn yr un grwpiau blwyddyn gael eu rhyddhau gyda'i gilydd er mwyn iddynt allu rhannu gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn teimlo bod y cymorth a gânt gan athrawon eraill yn helpu gwneud y cynllunio yn fwy cyson a'i fod yn helpu lleihau'r amser y mae angen iddynt ei roi i'r gweithgaredd hwn.

28 Mae athrawon sydd newydd gymhwyso (ANG) yn elwa'n sylweddol ar amser CPA ac amserlen lai yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn addysgu. Cânt eu cefnogi gan gyllid penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau'r amserlen o 10% y tu hwnt i'r amser CPA. Yn yr achosion gorau, caiff amser CPA athrawon sydd newydd gymhwyso ei drefnu i gyd-fynd ag athrawon eraill yn yr un grŵp blwyddyn mewn ysgolion cynradd, neu mewn adrannau mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn eu galluogi i drafod a rhannu syniadau gydag athrawon mwy profiadol.

29 Mae llawer o ysgolion yn trefnu bod gwaith penodol yn ystod amser CPA yn cael ei wneud gan athrawon cymwys. Mae nifer yr ysgolion sy'n defnyddio athrawon ar gyfer hyn wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf gydag 85% o ysgolion sampl bellach yn defnyddio athrawon i ddarparu gwaith penodol. Dengys tystiolaeth bod yr

ysgolion hyn yn ymddangos yn benderfynol i ddefnyddio athrawon ar gyfer darparu gwaith penodol er bod llawer ohonynt yn ychwanegu at gostau'r athrawon hyn o'u cyllidebau prif ffrwd yn hytrach na defnyddio staff cymorth llai drud.

30 Mae cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU) yn cyflwyno gwaith penodol mewn rhyw ffordd mewn tua thraean o ysgolion tra bod ystod o oedolion eraill yn cael eu cyflogi mewn rhai ysgolion, gan gynnwys athrawon llanw, nyrsys meithrin, cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr llanw a hyfforddwyr chwaraeon.

31 Mae tua hanner yr ysgolion wedi newid eu trefniadau i ddarparu amser CPA ar gyfer athrawon. Newidiwyd trefniadau yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn oherwydd bod arnynt eisiau gwella ar eu strategaeth gychwynnol neu oherwydd pryderon ynghylch cyllid. Rhoddodd llawer o'r ysgolion hyn drefniadau ar waith yn gyflym i ddechrau er mwyn sicrhau bod amser CPA yn cael ei ddarparu ar gyfer pob athro. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn awr wedi cael amser i fyfyrio ar ganlyniadau eu trefniadau cychwynnol ar gyfer disgyblion ac yn eu newid i sicrhau bod safon y gwaith penodol yn well.

32 Mae bron pob athro yn defnyddio'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu at y dibenion hyn yn gyfan gwbl. Mae nifer fach yn defnyddio rhywfaint o'r amser ar gyfer gweithgareddau eraill y maent yn eu hystyried yn bwysig fel cyfarfod â rhieni neu ymdrin â materion rheoli.

33 Mae'r cynllunio, y paratoi a'r asesu y mae athrawon yn ymgymryd ag ef yn cael ei fonitro bron ym mhob ysgol, fel arfer trwy brosesau monitro arferol yr ysgolion. Mewn tuag wyth o bob 10 ysgol, mae'r pennaeth neu uwch aelodau o staff yn monitro ansawdd y cynllunio, y paratoi a'r asesu. Mae hyn yn aml, er enghraifft, yn golygu bod uwch athrawon yn casglu ac yn gwirio cynlluniau bob wythnos neu'n archwilio cynlluniau ac asesiadau yn ystod sesiynau arsylwi ystafell ddosbarth. Mewn ychydig llai na chwarter yr ysgolion, mae penaethiaid ac uwch staff yn monitro ansawdd y cynllunio, y paratoi a'r asesu trwy weithgareddau penodol. Mae'r rhain, er enghraifft, yn golygu ffurflenni sy'n cael eu llenwi gan athrawon a nodi manylion cryno am y gwaith a wnânt mewn sesiynau CPA neu gan athrawon yn cwblhau dyddiaduron CPA.

34 Ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig, mae athrawon yn cael eu hamser CPA ar safle'r ysgol. Bron ym mhob un o'r ysgolion hyn, gallai athrawon ddefnyddio ystafelloedd penodol sy'n cael eu neilltuo iddynt weithio ynddynt. Mae gan lawer o'r ystafelloedd hyn gyfleusterau da ac maent yn cynnwys mynediad i'r mewnrwyd a'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, mewn tua thraean o ysgolion cynradd, mae athrawon yn ymgymryd â gweithgareddau CPA oddi ar y safle. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oes unrhyw le dros ben y gall athrawon ei ddefnyddio ar gyfer gweithio'n ddistaw.

35 Yn y nifer fach o ysgolion sy'n cyflogi athrawon llanw i gyflenwi ar gyfer amser CPA, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r rheiny y mae ganddynt hyder ynddynt ac yn eu defnyddio'n rheolaidd. Mewn llawer o achosion, mae gan ysgolion lawlyfrau bellach sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer athrawon llanw er mwyn eu helpu i ddeall ethos yr ysgol a'i gweithdrefnau yn gyflym. Mae hyn yn golygu y gall athrawon llanw integreiddio yn yr ysgol yn gyflymach a chynnal ethos a safonau ymddygiad yr ysgol.

36 Mae'r cytundeb cenedlaethol yn cyfyngu faint o waith llanw y dylai athrawon ei wneud ar gyfer cydweithwyr sy'n absennol i ddim mwy na 38 awr y flwyddyn gan symud yn gynyddol tuag at sefyllfa lle dylai hyn ddigwydd yn anaml yn unig. Mae bron pob ysgol wedi bodloni'r terfyn uchaf hwn ac mewn llawer o ysgolion, rhagorwyd ar hyn. Fodd bynnag, yr amcan cyffredinol yw diwygio'r terfyn hwn tuag i lawr, felly bydd angen i nifer fach o ysgolion addasu eu trefniadau ar gyfer staff llanw i fodloni'r gofyniad hwn.

37 Mae'r cytundeb cenedlaethol yn datgan na ddylai fod yn ofynnol i athrawon oruchwylio arholiadau allanol fel arfer. Ym mhob ysgol uwchradd a gafodd eu samplo, mae'r gofyniad hwn wedi cael ei weithredu'n llawn.

38 O dan amodau'r cytundeb cenedlaethol, mae gan athrawon sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli hawl i ddyraniad amser rhesymol yn y diwrnod ysgol er mwyn ymgymryd â'u cyfrifoldebau. At ei gilydd, mae ychydig llai na dwy o bob tair o'r ysgolion sampl yn dweud ar hyn o bryd nad ydynt wedi gallu gwneud hyn yn llawn. Bron ym mhob ysgol uwchradd, caiff yr athrawon hyn gydbwysedd amser rhesymol, ond yn y sector cynradd, dim ond mewn ychydig dros hanner yr ysgolion y mae'r gofyniad hwn wedi cael ei fodloni'n llawn. Yn yr ysgolion lle nad yw'r gofyniad yn cael ei fodloni'n llawn, mae amser arweinyddiaeth cyfyngedig fel arfer wedi cael ei greu. Dim ond dwy ysgol yn yr arolwg a ddywedodd nad ydynt wedi rhoi unrhyw ddyraniad amser ar gyfer arwain a rheoli ar waith. Mae ysgolion sydd wedi methu darparu dyraniadau amser rhesymol i staff ar gyfer arwain a rheoli yn dweud mai diffyg cyllid yw'r prif reswm.

39 Mae'r cytundeb cenedlaethol yn cydnabod bod yn rhaid i benaethiaid neilltuo amser ar gyfer arwain eu hysgolion, nid ar gyfer eu rheoli yn unig. Mae'n datgan y bydd disgwyl i gyrff llywodraethol sicrhau bod penaethiaid yn cael amser wedi'i neilltuo ar gyfer penaethiaid pan fyddant yn gallu cyflawni llawer o'u tasgau arwain.

40 Mae ychydig dros dri chwarter o benaethiaid yn cael amser wedi'i neilltuo ar gyfer arwain eu hysgolion ac mae traean ohonynt yn teimlo bod yr amser hwn yn rhesymol. Nid yw'r sefyllfa gystal mewn ysgolion cynradd, gyda chwarter o benaethiaid ddim yn cael unrhyw amser dynodedig a 40% arall yn cael dyraniad amser cyfyngedig. Yn yr ysgolion cynradd hyn, dywed penaethiaid ei bod yn anodd cymryd amser dynodedig ar gyfer penaethiaid oherwydd gofynion dyddiol y swydd. Ychydig o staff y gellir dirprwyo gwaith iddynt sydd gan lawer o'r penaethiaid nad ydynt yn cael amser dynodedig, ac felly maent yn 'ymgymryd' â gormod o dasgau rheoli eu hunain.

Manteision ar gyfer staff ysgolion

41 Mae gweithredu'r cytundeb cenedlaethol mewn ysgolion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar staff cymorth, athrawon ac uwch staff ar y cyfan, ac ar benaethiaid i raddau mwy cyfyngedig. Amlinellir yr effeithiau cadarnhaol hyn isod.

42 Mewn bron i naw o bob 10 ysgol, mae rolau staff cymorth wedi newid ac wedi gwella. Mae tua hanner y staff cymorth yn teimlo bod y rolau y maent bellach yn ymgymryd â nhw mewn ysgolion wedi gwella eu statws proffesiynol ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy. Mae nifer fawr o staff cymorth yn canfod bod y newidiadau yn gwella eu cyfleoedd swyddi mewn ysgolion ac maent wedi cael cyfrifoldebau cynyddol a groesawyd ganddynt yn sgil newidiadau. Mae tua chwarter y staff cymorth yn teimlo eu bod bellach yn cael mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac maent wedi caffael medrau newydd sy'n helpu iddynt gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol.

43 Ym mhob ysgol, mae athrawon yn teimlo bod y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi dod â manteision i'w bywyd gwaith. Mae llawer o athrawon yn awr yn teimlo bod ganddynt fwy o amser ar gyfer gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu a bod ganddynt lai o faich gweinyddol. Mae'r cyfuniad o amser gwarantedig ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ynghyd â llai o alw ar athrawon i wneud gwaith llanw a goruchwylio mewn arholiadau wedi gwella bywyd gwaith y rhan fwyaf o athrawon.

Astudiaeth achos 1: Sut mae ysgol wedi arfarnu effaith amser CPA ar agweddau ar waith athrawon

Cyd-destun: Mewn un ysgol gynradd fawr yn ne ddwyrain Cymru, mae'r pennaeth wedi dadansoddi effaith amser CPA ar y gwaith a wna athrawon. Cynhaliwyd y dadansoddiad yn 2006 ac eto yn 2008. O ganlyniad, mae'r pennaeth wedi gallu cadarnhau a yw cyflwyno amser CPA yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith athrawon.

Strategaeth: Yn yr ysgol hon, mae pob un o'r athrawon yn teimlo bod cyflwyno amser CPA wedi cael effaith fuddiol iawn ar ansawdd marcio a pharatoi cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion penodol, cynllunio wythnosol ac archwilio gwefannau addysgol perthnasol am ddeunyddiau addysgu o ansawdd da.

Gweithredu: Mae athrawon yn yr ysgol hon yn treulio tua hanner o'r amser CPA a neilltuir ar eu cyfer yn cynllunio, gyda gweddill yr amser yn cael ei ddefnyddio'n gyfartal ar gyfer paratoi ac asesu.

Canlyniadau: Mae bron pob un o'r athrawon yn cytuno bod amser CPA yn eu galluogi i:

- fyfyrio ar anghenion plant yn well a thargedu gwersi yn fwy cywir;
- gwella eu haddysgu gan eu bod wedi paratoi'n well;
- rhannu arfer dda gydag athrawon eraill yn yr ysgol; a
- threulio llai o amser gartref ar weithgareddau sy'n ymwneud â'r ysgol.

44 O ganlyniad i'r amser gwarantedig ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sydd gan athrawon erbyn hyn, mae ansawdd yr agweddau hyn ar waith athrawon wedi gwella mewn naw o bob 10 o'r ysgolion sampl. Gan eu bod yn cael mwy o amser i baratoi ar gyfer gwersi, mae athrawon yn teimlo bod eu gwaith paratoi yn fwy trylwyr a'u bod yn ymchwilio i adnoddau ac yn eu defnyddio'n fwy effeithiol.

45 Mae ansawdd y cynllunio hefyd wedi gwella mewn llawer o ysgolion. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn bellach yn mynd ati i gynllunio yn fwy cydweithredol gydag athrawon eraill ac mae'r cynllunio mewn llawer o ysgolion yn fwy cyson o ganlyniad. Mae cynllunio athrawon yn cynnwys mwy o ffocws hefyd ac mae wedi'i deilwra'n fwy yn ôl gwahanol grwpiau o ddisgyblion o wahanol alluoedd. Mewn rhai ysgolion, mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi gwella ac yn cynnwys targedau cliriach. Mae hyn yn helpu gwella safonau ar gyfer y disgyblion hyn.

46 Mae ansawdd yr asesu hefyd wedi gwella mewn llawer o ysgolion. Mewn rhai o'r ysgolion hyn, mae athrawon yn treulio mwy o amser nag yr oeddent yn y gorffennol yn asesu gwaith disgyblion, ac o ganlyniad, maent yn gallu targedu tasgau yn well i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Mewn rhai ysgolion cynradd mwy, caiff athrawon yn yr un grŵp blwyddyn eu rhyddhau er mwyn iddynt gael amser CPA gyda'i gilydd. Mae hyn yn eu galluogi i drafod a rhannu'r asesiadau o waith disgyblion sy'n helpu iddynt ddeall meini prawf asesu yn well a dod i ddealltwriaeth ar y cyd o ddisgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Materion cydbwysedd gwaith-bywyd

47 Mae'r cytundeb cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i bob athro, gan gynnwys penaethiaid, gael cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd. Rhaid i benaethiaid sicrhau bod gan eu staff feichiau gwaith priodol, i gefnogi cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd, tra bod cyrff llywodraethol yn gyfrifol am oruchwylio bod cydbwysedd gwaith-bywyd penaethiaid yn rhesymol.

48 Mae bron pob athro yn teimlo bod y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi gwella eu cydbwysedd gwaith-bywyd. Mae llawer ohonynt yn datgan eu bod yn awr yn gallu ymdopi'n well â gofynion y swydd a'u bod o ganlyniad yn teimlo wedi ymlacio mwy. Mae'r nifer fach sy'n teimlo nad yw'r newidiadau wedi gwella eu cydbwysedd gwaith-bywyd yn datgan bod gormodedd o fentrau fel diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol, trefniadau asesu newydd, hunanarfarnu a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, wedi ychwanegu at eu baich gwaith. Mae'r effaith hon o ran mentrau cenedlaethol cyfredol a chynnydd dilynol ym maich gwaith athrawon hefyd wedi cael eu codi yn adroddiad diweddar Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad, 'Rhoi'r Cytundeb Llwyth Athrawon Gwaith ar Waith'.

49 I raddau helaeth, mae ein canfyddiadau yn adlewyrchu canfyddiadau rhai o'r cymdeithasau proffesiynol sy'n awgrymu bod methu cael cydbwysedd boddhaol rhwng gwaith a bywyd yn ymwneud â hynafedd athro. Tra bod bron pob athro yn teimlo bod y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi newid eu cydbwysedd gwaith-bywyd, dim ond tua dau o bob tri uwch athro a thua thraean o benaethiaid sy'n teimlo bod eu cydbwysedd gwaith-bywyd wedi gwella.

50 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn sylweddoli ei bod yn anodd iawn cynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd o hyd. Maent yn cydnabod bod yna gyfnodau pan fo gofynion y swydd yn gallu bod yn ormodol, ond at ei gilydd, mae mwyafrif yn teimlo bod gwelliannau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cytundeb cenedlaethol wedi cael ychydig iawn o effaith gadarnhaol ar eu bywydau gwaith.

51 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi dweud wrthym eu bod yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau er mwyn ymdrechu i gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd. Mae strategaethau llwyddiannus yn cynnwys:

- rhoi blaenoriaeth lem i'r gwaith a wnânt;
- rhoi systemau ysgol trefnus ar waith;
- mynd ag isafswm yn unig o waith gartref;
- rhoi terfynau amser llym ar gyfarfodydd;
- clystyru cyfarfodydd er mwyn tarfu ar lai o sesiynau gwahanol;
- cadw at agenda glir mewn cyfarfodydd;
- cynnal cyfarfodydd uwch dîm rheoli yn ystod y diwrnod ysgol;

- cynnal cyfarfodydd llywodraethwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y diwrnod ysgol;

- cyflogi staff cymorth gweinyddol swyddfa ychwanegol sydd â rolau diffiniedig; a

- gweithio gartref pan fydd cyfleoedd gwaith yn caniatáu.

52 Mae rhai penaethiaid yn teimlo y bydd wastad yn anodd gwireddu'r cysyniad o amser dynodedig ar gyfer penaethiaid oherwydd natur a gofynion y rôl. Mae penaethiaid ysgolion mewn ardaloedd heriol, yn benodol, yn ei chael yn anodd nodi unrhyw amser yn ystod y diwrnod gwaith pan nad ydynt yn ymwneud â materion gweithredol.

Manteision ar gyfer disgyblion

53 Ers cyflwyno'r cytundeb cenedlaethol, mae darpariaeth y cwricwlwm wedi gwella ar y cyfan mewn tua thri chwarter o'r ysgolion sampl. Yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom ganfod mewn nifer fach o ysgolion cynradd, bod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion yn ystod amser CPA wedi cael ei gyfoethogi trwy gynnwys ystod ehangach o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau drama, dawns a chwaraeon. Caiff y gweithgareddau hyn eu harwain yn aml gan diwtoriaid, hyfforddwyr chwaraeon neu wirfoddolwyr arbenigol. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ond ymgymerir â'r ystod ehangach hon o weithgareddau mewn nifer fach iawn o ysgolion yn unig.

54 Mae natur y gwaith penodol y mae disgyblion yn ei wneud yn ystod amser CPA yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion. Mewn ychydig dros hanner o'r ysgolion, gwneir gweithgareddau cwricwlwm arferol gyda disgyblion yn ystod amser CPA. Gweithgareddau cwricwlwm arferol yw'r rheiny sydd wedi'u hamserlennu pan fydd amser CPA wedi'i drefnu ac mae staff llanw yn dilyn gweithgareddau arferol yr amserlen. Mewn ysgolion uwchradd, nid yw'r ddarpariaeth o amser CPA ar gyfer athrawon yn effeithiol ar y cwricwlwm ar y cyfan.

55 Mewn bron i hanner yr ysgolion cynradd, gwneir defnydd creadigol o amser i ganolbwyntio ar weithgareddau cwricwlwm penodol lle mae angen codi safonau. Mae'r ysgolion hyn wedi cyflwyno strategaethau lle mae staff, athrawon fel arfer, sydd ag arbenigedd penodol yn y cwricwlwm, yn gwneud gwaith penodol yn ystod amser CPA. Mae'r staff hyn fel arfer yn gwneud gwaith mewn nifer o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol ac maent yn canolbwyntio ar faes neu feysydd penodol y cwricwlwm. Yn yr achosion gorau mewn ysgolion cynradd, mae'r staff sy'n gweithio yn ystod amser CPA yn addysgu'r pynciau penodol i'r disgyblion, er enghraifft, TGCh, dylunio a thechnoleg, cerddoriaeth, celf neu addysg gorfforol. Fel hyn, mae'r un person yn addysgu'r pwnc i'r disgyblion bob wythnos ac fe gânt addysgu arbenigol. Mewn llawer o achosion, yr aelodau staff hyn yn unig sy'n gyfrifol am addysgu rhai o bynciau penodol y cwricwlwm.

56 Yn ein hadroddiad diwethaf ym mis Ionawr 2007, fe wnaethom ddatgan bod pob ysgol yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i lunio unrhyw fath o farn gadarn ar effaith ailfodelu'r gweithlu ar safonau cyflawniad disgyblion. Hefyd, roedd llawer o ysgolion yn teimlo na fydd yn bosibl sefydlu'r cyswllt achosol rhwng ailfodelu a chodi safonau disgyblion yn glir bob amser. Rhan o'r broblem wrth fesur safonau gwell o ganlyniad i amser CPA yw'r ffaith na fydd meini prawf llwyddiant ar gyfer mesur gwelliant yn cael ei ddatgan yn glir ar y dechrau ar lefel athro unigol neu lefel adrannol.

57 Serch hynny, ceir tystiolaeth gref yn yr ysgolion sampl sydd wedi rhoi addysg gweithredol ar waith yn ystod cyfnodau CPA bod hyn yn helpu codi safonau mewn pynciau penodol. Mae canlyniadau'r addysgu arbenigol hwn yn amlwg yn ansawdd gwell gwaith dosbarth disgyblion, ac mewn rhai achosion, niferoedd gwell o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol. At ei gilydd, mewn ychydig dros ddwy o bob tair o'r ysgolion sampl, mae safonau ym meysydd penodol y cwricwlwm wedi gwella. Gall y gwelliant hwn fod yn bennaf gysylltiedig â defnyddio cyfraniadau arbenigol yn hytrach nag â'r

effaith ar athrawon eu hunain yn cael eu rhyddhau i ymgymryd â mwy o gynllunio, paratoi ac asesu. Fodd bynnag, mae yna rai ysgolion o hyd nad ydynt yn arfarnu effaith eu gweithredoedd ar godi safonau.

Astudiaeth achos 2: Sut mae un ysgol gynradd wedi codi safonau mewn Cymraeg a cherddoriaeth

Cyd-destun: Mewn un ysgol gynradd fawr, trefnir amser CPA ar gyfer pob aelod o staff am ddiwrnod bob pythefnos.

Strategaeth: Mae'r ysgol yn cyflogi athro amser llawn i ddarparu gwaith penodol mewn amser CPA.

Gweithredu: Mae'r athro hwn yn cyflwyno cerddoriaeth a Chymraeg i bob dosbarth yn ystod sesiynau CPA ac mae hefyd yn cydlynu'r pynciau hyn ar draws yr ysgol. Mae'r athro wedi datblygu cyfleoedd allgyrsiol ychwanegol ar gyfer disgyblion mewn cerddoriaeth sy'n cynnwys cymryd rhan mewn cerddorfa ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar.

Canlyniad: Mewn adolygiad ysgol diweddar, roedd gwasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn cadarnhau arfarniad yr ysgol ei hun bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn lefelau darllen a llefaredd Cymraeg ac mewn safonau cerddoriaeth ar draws yr ysgol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

58 Nid yw'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi effeithio ar y cyfraddau presenoldeb mewn tri chwarter o ysgolion ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn chwarter o'r ysgolion sampl, mae newidiadau i'r cwricwlwm, i drefniadau addysgu a phrofiadau sydd ag ystod fwy o oedolion wedi ennyn brwdfrydedd ymhlith disgyblion, ac mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella o ganlyniad.

59 Mae gweithredu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol wedi golygu bod ymddygiad disgyblion yn parhau yn gyson mewn tua thri chwarter o ysgolion, ond mae chwarter o ysgolion yn sôn am welliannau. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y cafwyd achosion o ymddygiad disgyblion yn gwaethygu. Yn yr ysgolion hyn, bu cyfnodau pan fo ymddygiad wedi dioddef o ganlyniad i sesiynau CPA. Mae rhai disgyblion yn ei chael yn anodd ymdrin â diffyg parhad mewn staffio er bod y disgyblion yn adnabod y staff cymorth a'r athrawon sy'n cyflwyno gwaith penodol.

60 Mewn un ysgol gyfun, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi elwa ar nifer gynyddol o staff cymorth a chyswllt gwell â'r cydlynydd anghenion arbennig am gymorth unigol. Hefyd, yn yr ysgol hon, mae niferoedd cynyddol o staff cymorth sy'n gyffredinol mewn dosbarthiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion.

Ymglymiad llywodraethwyr

61 Mae penaethiaid a thimau arweinyddiaeth mewn partneriaeth â'u llywodraethwyr yn gyfrifol am weithredu'r diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol. Gyda'i gilydd, maent yn gwneud dewisiadau am strategaethau a blaenoriaethau wrth ymateb i amgylchiadau ysgolion unigol. Mae rhai ysgolion yn teimlo bod llywodraethwyr wedi cyfrannu rhai syniadau ac atebion ardderchog i broblemau posibl sy'n gysylltiedig â materion yn ymwneud ag ailfodelu.

62 Mewn bron i ddwy o bob tair ysgol, mae llywodraethwyr wedi cymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau ac mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â diwygio'r gweithlu. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn wybodus iawn ynglŷn â pha newidiadau y mae angen eu gwneud i gydymffurfio â'r cytundeb cenedlaethol, y dewisiadau sy'n agored i'r ysgol a'r adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae llawer o lywodraethwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddi sydd wedi cael eu trefnu gan yr awdurdod lleol neu reolwyr newid consortiwm lle maent wedi cael gwybod am y diwygiadau a'r goblygiadau i lywodraethwyr.

63 Caiff llawer o lywodraethwyr eu diweddaru'n rheolaidd ynglŷn â pha mor dda y mae'r diwygiadau yn gweithio yn eu hysgolion. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, sefydlwyd pwyllgorau penodol ar gyfer llywodraethwyr i oruchwylio cynnydd ac addasu strategaethau os oes angen yng ngoleuni profiad ac amgylchiadau sy'n newid. Caiff goblygiadau ariannol y diwygiadau eu cynnwys yn rheolaidd ar gyfer eu trafod gyda llywodraethwyr.

64 Mewn un ysgol gyfun fawr, mae tri llywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethol llawn yn cyfarfod â'r pennaeth yn rheolaidd i drafod ei faich gwaith a chydbwysedd gwaith-bywyd. Mae'r trafodaethau yn agored ac yn ddidwyll ac adroddir yr holl ganlyniadau i'r corff llywodraethol llawn. Fel hyn, mae'r pennaeth yn teimlo bod y llywodraethwyr yn wybodus am y gofynion gwaith a roddir iddo ac maent yn dderbyngar ac yn ymatebol i ofynion gwaith gormodol sydd weithiau'n afresymol.

65 Mewn un ysgol gynradd fechan, roedd y llywodraethwyr yn pryderu am faich gwaith y pennaeth. Trafododd y corff llywodraethol strategaethau amrywiol ar gyfer lleihau baich gwaith y pennaeth, gan ystyried y goblygiadau ariannol i gyllideb yr ysgol. Maent wedi sicrhau oherwydd bod gan y pennaeth ymrwymiad addysgu, y dylai faint o amser sydd ar gael ar gyfer gwaith gweinyddol ac amser CPA fod yn gymesur â gofynion y swydd. Mae ymestyn amser digyswllt dosbarthiadau a gwella oriau ysgrifenyddes yr ysgol wedi bod o gymorth mawr i'r pennaeth ar gyfer sicrhau cydbwysedd mwy rhesymol rhwng gwaith a bywyd.

66 Mewn rhai ysgolion, mae penaethiaid nid yn unig yn adrodd i lywodraethwyr mewn cyfarfodydd ynglŷn â pha mor dda y mae'r diwygiadau yn dod yn eu blaenau ond maent hefyd yn myfyrio ar sut mae'r diwygiadau hyn yn effeithio ar eu beichiau gwaith eu hunain.

Adnoddau a chymorth ar gyfer y cytundeb baich gwaith

67 Mae gan ysgolion bryderon am yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer ailfodelu'r gweithlu er mwyn gweithredu elfennau statudol y cytundeb cenedlaethol.

68 Yr elfen fwyaf o ran gwario yw neilltuo 10% o amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer pob athro. Mae pob ysgolion yn blaenoriaethu'r arian a gânt ar gyfer ailfodelu i ddarparu, yn yr achos cyntaf, er mwyn i athrawon gael amser CPA. Fodd bynnag, dim ond tua chwech ym mhob 10 ysgol sy'n teimlo eu bod yn cael digon o adnoddau i gefnogi'r agwedd hon yn llawn. Mae'r ysgolion hynny sy'n teimlo nad ydynt yn cael digon o adnoddau ar gyfer hyn yn datgan nad ydynt yn gallu fforddio darparu ar gyfer athrawon i gyflenwi yn ystod amser CPA, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gallu codi safonau trwy roi'r agwedd hon o'r cytundeb cenedlaethol ar waith.

69 Yn yr un modd, dim ond yr un gyfran o ysgolion sy'n teimlo bod yr adnoddau i gefnogi trosglwyddo tasgau yn ddigonol.

70 Mae'r cyfyngiadau ar athrawon llanw a'r gofyniad nad yw athrawon yn goruchwylio arholiadau allanol, yn benodol, yn effeithio ar ysgolion uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, dim ond ychydig dros hanner sy'n teimlo eu bod yn cael digon o adnoddau i weithredu'r gofynion hyn yn llawn, ac felly, er mwyn sicrhau bod yr agweddau hyn yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus, maent yn ychwanegu at yr arian a gânt trwy ddefnyddio adnoddau ariannol o'u prif gyllideb ysgol.

71 Arweinyddiaeth ac amser dynodedig ar gyfer penaethiaid yw'r ddau faes nad ydynt yn cael digon o arian ym marn ysgolion. Adlewyrchir hyn yn y diffyg llwyddiant wrth weithredu'r ddwy agwedd hon ar y cytundeb cenedlaethol gan mai'r ddwy agwedd yw'r rheiny sydd yn cael eu gweithredu yn y ffordd lleiaf llwyddiannus. At ei gilydd, mae bron i hanner yr ysgolion yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i weithredu dyraniadau rhesymol o amser arweinyddiaeth yn llawn ac mae bron i ddwy o bob tair ysgol yn teimlo'r un fath am amser dynodedig ar gyfer penaethiaid.

72 Darperir cymorth ar gyfer y broses ailfodelu gan rwydwaith o uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi penodi uwch swyddog i weithredu fel rheolwr newid i roi cyngor a chymorth i ysgolion ynglŷn â materion yn ymwneud ag ailfodelu'r gweithlu. Caiff y rhain, yn eu tro, yn aml eu cefnogi gan gydlynwyr consortia gan fod awdurdodau lleol yn cael eu grwpio ledled Cymru mewn pum consortiwm daearyddol ac mae cydlynydd gan bob un.

73 Yn haf 2007, fe wnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru ac eithrio dau gymryd rhan mewn arolwg ysgolion gan y Comisiwn Archwilio. Prif ddiben yr arolwg ysgolion hwn oedd rhoi tystiolaeth am ganfyddiadau ysgolion o'r cymorth a ddarperir gan eu hawdurdod lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc.

74 Mae'r arolwg yn cynnwys adran ar gymorth ar gyfer gwella ysgolion, ac ymhlith llawer o bethau eraill, gofynnwyd i ysgolion ystyried 'ansawdd arweiniad eu cyngor mewn perthynas â 'rhoi cytundeb baich gwaith' yr athrawon ar waith yn effeithiol'.

75 Roedd y cyfraddau ymateb o ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio o gyfradd ymateb o 93% yng Nghonwy i gyfradd o 16% yn unig yn Ynys Môn. Serch hynny, fe wnaeth tua 777 o ysgolion yng Nghymru gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd ysgolion yn gallu ateb y cwestiynau yn yr arolwg gan ddefnyddio un o chwe ymateb posibl: da iawn, da, boddhaol, gwael, gwael iawn neu ddim yn gallu rhoi sylw.

76 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod bron i dri chwarter yr ysgolion yn teimlo bod cymorth yn dda neu'n dda iawn yn y pum awdurdod lleol sy'n rhoi'r cymorth gorau ar gyfer gweithredu'r cytundeb baich gwaith. O'i gyferbynnu, yn y pum awdurdod lleol sy'n rhoi'r cymorth gwaethaf ar gyfer gweithredu'r cytundeb baich gwaith, dim ond tua chwarter o'r ysgolion sy'n teimlo bod y cymorth yn dda neu'n dda iawn.

77 Mae ychydig mwy o ysgolion ar y cyfan yn teimlo bod y cymorth a gânt yn dda neu'n dda iawn o'i gymharu â'r rheiny sy'n teimlo bod y cymorth dim ond yn foddhaol ar ei orau. Fodd bynnag, mae dros hanner yr ysgolion mewn 10 awdurdod lleol yn teimlo bod cymorth dim ond yn foddhaol ar ei orau ac mewn saith awdurdod lleol, dywedodd dros 10% o'r ysgolion fod y cymorth yn wael neu'n wael iawn. Mewn un awdurdod lleol, mae pedwar o bob 10 ysgol yn teimlo bod lefel y cymorth ar gyfer gweithredu'r cytundeb baich gwaith yn wael neu'n wael iawn. Codwyd pryder hefyd ynglŷn â dirywiad yn ansawdd y cymorth ar gyfer penaethiaid yn adroddiad diweddar Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad, sef 'Rhoi'r Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ar Waith'.

Safbwynt cyffredinol ysgolion

78 Mae ysgolion yn datgan bod llawer o agweddau cadarnhaol iawn yn ymwneud ag ailfodelu'r gweithlu. Fodd bynnag, mae agweddau o'r fath ar y cyfan yn adlewyrchu'r effaith y mae'r cytundeb cenedlaethol wedi'i chael ar athrawon. Ymhlith yr agweddau hynny y maent yn eu hystyried yn rhai cadarnhaol yw gwelliannau fel amser gwarantedig ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gyda mwy o amser i athrawon ei dreulio ar weithgareddau addysgu a dysgu o ganlyniad. Mae ysgolion yn gyffredinol yn teimlo bod morâl athrawon wedi gwella am fod ganddynt gydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Maent hefyd yn teimlo bod y newidiadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith wedi gwella statws proffesiynol staff cymorth yn sylweddol.

79 Mae ysgolion yn teimlo bod prif nodweddion negyddol y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol i gyd yn ymwneud ag agweddau ar reoli. Mae penaethiaid yn datgan bod y newidiadau wedi ychwanegu at eu baich gwaith a baich gwaith uwch staff. Maent hefyd yn cyfeirio at yr anawsterau a wynebir pan fydd athrawon yn mynychu cwrs hyfforddiant mewn swydd neu pan fyddant yn absennol am resymau eraill oherwydd natur anhyblyg amser CPA wedi'i amserlennu. Mae llawer o ysgolion hefyd yn teimlo nad ydynt yn cael adnoddau na chymorth digonol er mwyn iddynt roi'r holl newidiadau gofynnol ar waith yn llawn.

Atodiad 1: Y cytundeb gweithlu cenedlaethol: cynllun saith pwynt ar gyfer creu amser i athrawon a phenaethiaid

I Gostyngiadau cynyddol yn oriau cyffredinol athrawon dros y pedair blynedd nesaf. Bydd yr amcan hwn yn cael ei hyrwyddo gan bob un o'r partneriaid a bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i archwilio, gan gynnwys ar lefel ysgol.

II Newidiadau i gontractau athrawon, er mwyn sicrhau bod pob athro, gan gynnwys penaethiaid:

- ddim yn ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlerigol yn rheolaidd;
- yn cael cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd;
- yn wynebu llai o faich o ran cyflenwi dros gydweithwyr sy'n absennol;
- yn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) gwarantedig yn ystod y diwrnod ysgol, i gefnogi eu haddysgu yn unigol ac ar y cyd; ac
- yn cael dyraniad amser rhesymol i gefnogi eu cyfrifoldebau arwain a rheoli;

a bod penaethiaid yn cael amser dynodedig sy'n cydnabod eu cyfrifoldebau arwain arwyddocaol ar gyfer eu hysgol.

III Ymgyrchu ar y cyd yn erbyn gwaith papur diangen a phrosesau biwrocrataidd ar gyfer athrawon a phenaethiaid, gan gynnwys yn Lloegr trwy sefydlu Uned Adolygu Gweithredu.

IV Diwygio rolau staff cymorth i helpu athrawon a chefnogi disgyblion. Bydd cynorthwywyr gweinyddol personol ar gyfer athrawon, goruchwylwyr llanw a chynorthwywyr addysgu lefel uchel yn cael eu cyflwyno.

V Recriwtio rheolwyr newydd, gan gynnwys rheolwyr busnes a phersonél, ac eraill sydd â phrofiad o'r tu allan i addysg lle mae ganddynt yr arbenigedd i gyfrannu'n effeithiol at dimau arweinyddiaeth ysgolion.

VI Adnoddau ychwanegol a rhaglenni 'rheoli newid' cenedlaethol, er mwyn helpu arweinwyr ysgol i gyflawni diwygiadau angenrheidiol yn y proffesiwn addysgu ac ailstrwythuro'r gweithlu ysgol yn eu hysgolion.

VII Monitro cynnydd ar gyflwyno gan Lofnodwyr i'r Cytundeb hwn.

Atodiad 2: Niferoedd y staff cymorth sy'n cael eu cyflogi mewn ysgolion a gynhelir 2004-2008, ym mis Ionawr bob blwyddyn[2]

	2004	2005	2006	2007	2008
Cynorthwywyr addysgu					
Cynorthwywyr addysgu	6,065	6,791	7,815	8,718	9,583
Staff cymorth anghenion arbennig	2,219	2,610	2,410	2,287	2,356
Cyfanswm	8,284	9,399	10,225	11,005	11,938
Staff gweinyddol					
Cyfanswm	2,774	3,088	3,186	3,256	3,416
Technegwyr					
Cyfanswm	1,034	1,084	1,111	1,142	1,139
Staff cymorth eraill					
Nyrsys	70	61	62	55	46
Staff nyrsio/gofal plant	555	327	444	377	407
Cyfanswm	625	388	506	432	453
Cyfanswm	**12,717**	**13,962**	**15,027**	**15,834**	**16,946**

Mae'r tabl uchod yn dangos y cynnydd yn nifer y staff cymorth a gyflogwyd mewn ysgolion er 2004. Yn benodol, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cynorthwywyr addysgu a'r staff gweinyddol a gyflogir. Mae'r rhain wedi cynyddu 58% a 23% yn y drefn honno yn y cyfnod pum mlynedd.

[2] Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru

Geirfa/cyfeiriadau

Geirfa:

Amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)	Cyhoeddwyd 'Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol' gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) ym mis Ionawr 2003. Fel rhan o'r cytundeb hwn, o fis Medi 2005, mae o leiaf 10% o amser gwarantedig ar gael i bob athro bob wythnos yn y diwrnod ysgol i gynllunio, paratoi ac asesu.
Gwaith penodol	Mae hyn yn galluogi disgyblion i barhau â'u dysgu wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau o dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn wahanol i waith goruchwylio llanw i gyflenwi yn lle athrawon sy'n absennol yn sgil salwch pan na fydd unrhyw addysgu gweithredol yn digwydd. Gall gwaith penodol mewn ysgolion gynnwys tasgau sy'n cael eu gosod gan athrawon, tasgau estynedig ar y cyd sy'n cael eu cynllunio gan staff cymorth ac athrawon a gweithgareddau cyfoethogi unigol sy'n cael eu cyflwyno gan athrawon neu wirfoddolwyr arbenigol allanol.

Cyfeiriadau:

- Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: Cytundeb cenedlaethol – DfES 2003
- Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol Pecyn Adnoddau ar gyfer Llywodraethwyr yng Nghymru – APADGOS 2006
- Arolwg Cydbwysedd Gwaith-Bywyd NAHT – Steve French a Gary Daniels 2007
- Archwiliad Llwyth Gwaith NAS/UWT
- The deployment, training and development of the wider school workforce – Ofsted 2008
- Arolwg Ysgolion y Comisiwn Archwilio, 2007 – www.audit-commission.gov.uk/schoolsurvey
- Rhoi'r Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon Ar Waith – Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Mike Maguire, AEM	Awdur
Claire Morgan, AEM	Aelod o dîm yr arolwg
Barry Rees, AEM	Aelod o dîm yr arolwg
Peter Roach, AY	Aelod o dîm yr arolwg